

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



**FFORWM IEUENCTID  
DYDD SUL, GORFFENNAF 3YDD 2022  
CANOLFAN CFFI CYMRU, LLANELWEDD, 10.15YB**

## COFNODION

---

**CADEIRYDD:** Carys Harts

**IS-GADEIRYDD:** Carys Rees

**PRESENNOL:** Carys Harts (Cadeirydd), Carys Rees (Is-Gadeirydd), Gethin Lewis, Mari James, Elis James.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Nia Haf (Wales YFC).

**YF/23/2022**

**CROESO A CHYFLWYNIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod wyneb i wyneb gyntaf.

**YF/24/2022**

**YMDDIHEIRIADAU AM ABSENOLDEBAU**

Cafwyd ymddiheiriadau gan Charlotte Lewis, Seren Phillips, James Morgan a Rhys Jones.

**YF/25/2022**

**CADARNHAU COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu datgan yn gywir gan Carys Rees a eiliwyd gan Mari James.

**YF/26/2022**

**PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI**

Cadarnhawyd na chafodd y cyfarfod a gynlluniwyd ar gyfer 30ain o Ebrill 2022 ei chynnal.

**YF/27/2022**

**GOHEBIAETH**

Yn dilyn cyfarfod diweddar Senedd Ieuenctid Cymru, mae Cerys wedi'i dewis fel un o'r aelodau i fod ar bwyllgor Iechyd Meddwl. Bydd arolwg yn cael eu rhyddhau ganddynt ar Ddydd Iau, Gorffennaf 14eg, gofynnodd Cerys os gall aelodau'r fforwm gadw golwg allan a helpu i rannu ar y cyfryngau cymdethasol i bobol ifanc.

**YF/28/2022**

**GWEITHGAREDDAU SIROL**

Cafwyd adroddiadau sirol gan y canlynol:  
Carys Rees dros Brycheiniog  
Cerys Harts dros Sir Benfro  
Mari James dros Sir Gar

Soniwyd fod Pwyllgor Ieuenctid Sir Benfro wedi trefnu Gwyl cae (Field Festival) ar gyfer y 5ed o Awst 2022, roedd hyn yn ysbrydoliaeth gwych i'r siroedd eraill.

**YF/29/2022**

**SIOE FRENHINOL CYMRU 2022**

Trafodwyd syniadau ar gyfer stondin yn y sioe, gyda'r son fod gliter a peintio gwyneb wedi bod yn lwyddiant yn y gorffennol. Penderfynwyd byddai gliter yn syniad da ggyda'r cost o nwyddau

wedi'ŷ trafod, e.e. brwsh, stensils a deunydd e.e. gliuter vasaline. Nia Haf yn hapus i brynu deunydd y cynnyrch. Penderfynwyd byddai £2 y pen yn bris rhesymol, gan ystyried posibilrwydd o deulu gyda 3 plentyn. Bydd y stondin yn cael eu rhedeg o 11yb tan 3yp i rhoi digon o amser a bydd amserlen yn cael ei greu dros y 4 diwrnod yn ddibynnol pryd mae'r aelodau ar gael o bob sir. Trafodwyd hefyd os fyddai sticeri CFFI ar gael i'w roi allan, fyddai'n hysbyseb da i'r mudiad. Soniodd Nia fyddai'n holi am hyn.

**YF/30/2022**

**LLES AELODAU**

Trafodwyd tymor arholiadau a sut oedd pawb yn teimlo.

**YF/31/2022**

**EITEMAU AGENDA A DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Cynllunio i adlweyrchu ar lwyddiant y stondin yn Sioe Frenhinol Cyrmu a cynllunio dyddiad cyfarfod nesaf dros chat Whattsapp, gan fydd ysgol/prifysgol wedi dechrau erbyn hynny, rhai wedi son na fedran nhw fynychu.

Dyddiad CCB 17/9/22.

Dyddiad Cyngor 18/9/22.

**YF/32/2022**

**UNRHYW FATER ERAILL**

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod, felly, daeth y cyfarfod i ben am 11.24yb.